

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Lun, Mawrth 6ed 2023 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Eifion Davies, (is-gadeirydd), Rita Jones, Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Dewi Pritchard, Gary Thomas, Gwynedd Jones, Meilir Jones, Gwenda Morris a'r clerics

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eilir Rowlands, Gwenda Evans, Bethan Thomas a'r Cyng. Elwyn Edwards.

## **i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod Chwefror 7fed a chafwyd yn gywir.**

### **ii) Datgan Buddiant.**

Nodwyd y buddiant gyda'r ceisiadau ariannol perthnasol isod.

### **iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

#### **a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.**

i) Cais am oleuadau ychwanegol wrth Garn Bach Tryweryn, Frongoch. Roedd y clerics wedi cysylltu â'r cylch meithrin ac roeddynt yn ymwybodol o'r sefyllfa.

ii) Cais i wella cyfleusterau safle casglu sbwriel sydd rhwng Ty'n Bwlch a Bryn Derw, Glanrafon. Roedd Cyngor Gwynedd wedi cytuno i osod bin ychwanegol ar y safle.

iii) Llechi yn rhydd ar do'r Hen Ysgol Fritanaidd, Glanrafon – roedd swyddog Cyngor Gwynedd wedi cysylltu'n ôl yn cadarnhau y byddai'n cael gair eto gyd perchennog yr ysgol. Nodwyd y cynghorwyr lleol fod perchnogion y ty cyfagos wedi gorfod tynnu'r tu oddi ar y farchnad oherwydd y sefyllfa yma. Gofynnwyd i'r clerics ail gysylltu â Chyngor Gwynedd i'w hysbysu o'r sefyllfa.

iv) Arwyddion i doiledau cyhoeddus Llandderfel - cytunwyd i brynnu'r arwyddion ar gyfer y toiledau.

v) Meinciau llwybr troed Llanfor – gofynnwyd i'r clerics wneud ymholiadau gyda seiri coed lleol am brisiau i drwsio'r meinciau.

#### **b) Gwelliannau i'r mynwentydd.**

Yn dilyn ymweliad y cynghorwyr a'r mynwentydd roedd y clerics wedi paratoi rhestr o'r gwelliannau posib. Eglurodd y clerics ei bod wedi mynychu diwrnod agored Cronfa Melinau Gwynt Clocaenog a chafwyd cyngor ar sut i wneud cais. Roedd ansicrwydd pryd fyddai'r gronfa yn ail agor ond cytunwyd i symud ymlaen i gael amcan brisiau ar gyfer y gwaith.

## **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### **a) Plaid Cymru.**

i) Gwasanaeth Ambiwllans Awyr Cymru – cadarnhad y byddai'r gwasanaeth yn parhau o'r meysydd awyr yng Nghaernarfon a'r Trallwng.

### **b) Heddlu Gogledd Cymru.**

i) Gwahoddiad i gyfarfod yn Orsaf Y Bala - cytunodd Alwyn Jones i fynychu ar ran y Cyngor.

### **c) Llywodraeth Cymru.**

i) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol - nodwyd argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Trafodwyd y cydnabyddiaeth dewisol a cytunwyd nad oedd y cynghorwyr yn dymuno hawlio'r lwfans presenoldeb na unrhyw daliadau ar gyfer cyflawni'r swyddi Cadeirydd, Is-Gadeirydd ac nid oedd unrhyw cyfrifoldebau penodol amlwg iddynt. Cytunwyd y dylid ad-dalu'r cynghorwyr am unrhyw gostau teithio ayyb pan yn mynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. Nodwyd y cydnabyddiaeth a oedd yn orfodol, y taliad costau ychwanegol a chostau gofal. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

## **v) Ceisiadau Cynllunio**

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau.

## **vi) Materion Ariannol.**

### **a) The Pension Regulator.**

Gofynnwyd i'r clerc gwblhau'r broses ailgofrestru berthnasol.

### **b) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.**

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

### **c) Taliadau**

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- 1) Cyflog a chostau'r clerc (Ionawr i Fawrth).
- 2) CTHEM (TWE).
- 3) Neuadd Mynach (Ilogi).
- 4) Neuadd Bro Derfel (Ilogi).
- 5) Neuadd Sarnau (Ilogi).
- 6) Un Llais Cymru (tal aelodaeth).
- 7) Deiniol Davies (Torri gwrych Mynwent Llandderfel).
- 8) Deiniol Davies (Gwaith ym Mynwent Frongoch).
- 9) Chwmni Ciltalgarth (Torri glaswellt y mynwentydd).
- 10) Cymeradwyid i'r clerc i archebu a thalu amdan arwyddion y toiledau a'r fynwent pan dderbynni'r yr anfoneb.

### **ch) Ceisiadau Ariannol.**

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ddefnyddio ychydig o arian tu cefn i ariannu'r cyfrannau ychwanegol. Gyda costau egni uchel a'u cyfraniadau yn is oherwydd yr argyfwng chostau byw, roedd eleni wedi bod yn flwyddyn heriol iawn eto i fudiadau ac elusennau.

Cytunwyd i gyfrannu fel y ganlyn:-

- 1) Neuadd Mynach - £450
- 2) Neuadd Sarnau - £450 (Eifion Davies yn datgan buddiant)
- 3) Neuadd Llandderfel - £450
- 4) Ysgol Bro Tryweryn - £250
- 5) Ysgol Ffridd y Llyn - £250
- 6) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn - £100.00
- 7) Cylch Meithrin Sarnau a Llandderfel - £100
- 8) Garn Bach Frongoch - £100
- 9) Hosbis Tŷ Gobaith - £100
- 10) Hosbis Tŷ'r Eos - £100
- 11) CFFI Meirionnydd - £200
- 12) Cantref - £100
- 13) Sioe CFFI Cwmtirmynach - £100
- 14) Ambiwylans Awyr Cymru -£100
- 15) Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel - £100
- 16) Marie Curie Gwynedd - £100
- 17) Urdd Cylch Meirionnydd - £100
- 18) Eisteddfod Talaith Powys - £75
- 19) Neuadd Bro Derfel - derbyniwyd llythyr gan y pwyllgor yn egluro eu bod wedi codi arian er mwyn prynu cabinet diffibriliwr newydd i'r pentref ac os byddai'r Cyngor Cymuned yn gallu eu cynorthwyo i'w brynu ac adhawlio'r TAW. Cytunwyd yn unfrydol i'w cynorthwyo gyda'r pryniant. Cymeradwyd i'r clerc dalu am y cabinet pan dderbynni'r yr anfoneb.

**vii) Materion lleol.**

**a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-**

- i) Gwrych capel Glanrafon dal yn achosi pryder i yrrwyr.
- ii) Ffordd yn suddo ger Bryn Melyn, Llandderfel.
- iii) Gwrych gyferbyn a Bryn Tirion, Llandderfel angen ei dorri'n nôl.
- iv) Cwynion pellach am gyflwr yr A494 rhwng Llanfor a Sarnau.
- v) Ceir yn cael difrod i'w olwynion oherwydd y graig sy'n dod allan i'r ffordd ger Crogen, Llandderfel.
- vi) Nodwyd fod y Cyng. Elwyn Edwards wedi gofyn i Gyngor Gwynedd lanhau'r draeniau yn Llandderfel ac wedi pasio cwyn ymlaen i'r Adran Llwybrau Cyhoeddus fod coeden wedi disgyn ar draws y llwybr ger Tyn y Bwlch

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai 2il am  
7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.**